YR ADOLYGIAD MANWL

Mae'r brif raglen gwaith maes yn digwydd yng Ngham 2 ac mae'n darparu archwiliad mwy manwl o feysydd a materion penodol. Eto, defnyddir ystod o ddulliau (megis astudiaethau achos, cyfweliadau a chyfarfodydd, ymarferion gwerth am arian). Mae rhai o'r dulliau hyn yn safonol ac mae eraill wedi eu haddasu er mwyn gallu archwilio meysydd a ddewiswyd mewn manylder. Mae'r cam hwn yn dod i ben pan fo'r tîm cyd-adolygu yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau cychwynnol i'r awdurdod lleol.

Cerrig milltir:

- Cynllunio gwaith maes (Wythnosau 13-15)
- Cyfarfodydd cyflwyno (Wythnos 16)
- Gwaith maes – defnyddwyr gwasanaeth/gofalyddion a darparwyr gwasanaeth (Wythnos 18)
- Gwaith maes - timau asesu/rheoli gofal (Wythnos 20)
- Gwaith maes – rheolwyr a phartneriaid (Wythnos 22)
- Asesiad terfynol (Wythnos 24)
- Cyfarfodydd adborth (Wythnos 26)

Cynllunio gwaith maes

Ar ôl i'r asesiad risg a'r dadansoddiad dros dro gael ei gwblhau, bydd yr adolygydd sy'n arwain yn dechrau cynllunio'r rhaglen ar gyfer gwaith maes yr adolygiad manwl gyda'r awdurdod lleol a'r swyddog cyswllt. Bydd hyn yn cynnwys rhannu rhai o'r negeseuon allweddol sydd wedi ymddangos yn y cam adolygu eang a'r ffyrdd y bydd hyn yn dylanwadu ar y gwaith maes yn y cam adolygu manwl. Bydd y tîm cyd-adolygu a'r awdurdod lleol eisiau defnyddio hwn fel cyfle ychwanegol i drafod ac i sicrhau y cynhelir y broses adolygu mewn ysbryd o bartneriaeth, heb ddigwyddiadau annisgwyl.

Yn y cam adolygu eang, mae'r pwyslais ar ddefnyddio dulliau sydd yn unffurf, yn barod, ac yn gynhwysfawr. Mae nifer ohonynt wedi eu cynllunio i ganiatáu cymharu awdurdodau lleol ar sail tystiolaeth feintiol. Yn y gwaith maes ar gyfer y cam adolygu manwl, mae rhai o'r agweddau hyn yn parhau ond rhoddir mwy o bwyslais ar ddulliau o weithio sy'n:

- benodol ar gyfer pob adolygiad;
- ymatebol i'r asesiad dros dro a'r ystyriaeth o risg;
- canolbwyntio ar feysydd a themâu penodol.

Mae'r ddogfen yn y Llawlyfr sy'n disgrifio cynllun y gwaith maes ar gyfer y cam adolygu manwl (Adran 2.2) yn ymdrin â'r materion hyn yn fwy manwl. Mae hefyd yn amlinellu'r ffyrdd y bydd yr awdurdod lleol a'r tîm cyd-adolygu yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bawb sy'n cymryd rhan ddealltwriaeth dda o'r swyddogaeth y gofynnir iddynt ei chyflawni yn y gwaith maes.

Cyfarfodydd cyflwyniadol ar gyfer yr adolygiad manwl

Bydd aelodau'r tîm cyd-adolygu yn treulio un diwrnod yn yr awdurdod lleol er mwyn:

- cyflwyno eu hunain;
- darparu briff ynglŷn â'r broses adolygu ac ateb unrhyw gwestiynau;
- rhoi peth adborth ynglŷn â'r asesiad dros dro;
- trafod y cynlluniau ar gyfer gwaith maes yr adolygiad manwl.

Bwriad y cyfarfodydd yw rhoi cyflwyniad. Bydd llawer o'r cyfranogwyr yn cael cyfleoedd yn ystod cam nesaf y broses i gynnal trafodaethau ehangach gyda'r tîm cyd-adolygu.

Bydd y rhaglen ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn cael ei theilwra er mwyn bodloni anghenion yr awdurdod penodol. Mae'n arferol i'r cyfarfodydd hyn ddigwydd gyda'r:

- Prif Weithredwr ac aelodau blaenllaw (gweithredol ac archwilio);
- Staff y gwasanaethau cymdeithasol[1];
- Budd-ddeiliaid allweddol.

Gwaith maes

Cynhelir y gwaith maes mewn tri bloc o un wythnos yr un, gydag wythnos rhwng bob bloc i ganiatáu ystyriaeth, dadansoddiad a gwella'r rhaglen. Ym mhob wythnos, bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar grwpiau penodol:

- Defnyddwyr gwasanaeth/gofalyddion, eiriolwyr a darparwyr gwasanaeth;
- Timau asesu/rheoli gofal;
- Arweinwyr, rheolwyr a phartneriaid.

Mae'r drefn hon yn bwysig, gan alluogi'r tîm cyd-adolygu i arsylwi canlyniadau ac effaith penderfyniadau ynglŷn â dyraniad adnoddau, polisïau a gweithdrefnau cyn gweld y rhai hynny sy'n gyfrifol am y materion hyn.

Bydd y gwaith cwrs yn cynnwys rhai elfennau cyffredin, beth bynnag fo'r dewis o ganolbwynt. Bydd y rhain yn cynnwys:

[1] Bydd adolygwyr yn croesawu traws-toriad o staff yn mynychu'r cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau bod cyfathrebu da ynglŷn â diben a ffurf yr adolygiad.

- dilyn achosion, drwy gyfweliadau gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalyddion, y staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol, atgyfeirwyr a darparwyr gwasanaeth fel y bo'n briodol;
- tafelli fertigol (neu lorweddol), i ddilyn materion penodol drwy'r sefydliad;
- rhaglen o gyfweliadau a chyfarfodydd gyda grwpiau defnyddwyr gwasanaeth, aelodau etholedig, staff, rheolwyr, darparwyr gwasanaeth, sefydliadau partner a'r rhai hynny sy'n cynnig gwasanaeth eirioli;
- ymweliadau â swyddfeydd a lleoliadau gwasanaeth eraill fel y bo'n briodol.

Dylai pawb sy'n ymwneud â'r rhaglen gwaith maes dderbyn y wybodaeth berthnasol ynglŷn â chyd-adolygiadau (e.e. taflenni, canllawiau, nodiadau briffio, ac ati) ym mhell o flaen llaw. Mae'n bosibl y byddant yn dymuno gweld dogfennau eraill sydd yn y Llawlyfr.

Asesiadau terfynol

Dylai pob cyd-adolygiad ddarparu dyfarniadau ar berfformiad, sydd yn eglur, gyda digon o dystiolaeth ar eu cyfer, ac sydd wedi eu hystyried yn helaeth, y gellir eu deall a gweithredu arnynt gan ystod eang o fudd-ddeiliaid, yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae gan yr holl fudd-ddeiliaid hyn ddisgwyliadau priodol fod y dyfarniadau terfynol yn gyson, wedi eu seilio ar ddadansoddiad cadarn o dystiolaeth, wedi eu profi yn rymus a'u dangos yn derfynol yn yr adroddiad a wneir i'r awdurdod lleol.

Ar ôl i'r holl dystiolaeth gael ei chasglu a'i hasesu, mae proses gadarn o herio yn dilyn, o fewn y tîm cyd-adolygu a chan safonwyr profiadol cyn y rhennir y casgliadau gyda'r awdurdod lleol. Bwriad hyn yw sicrhau bod unrhyw ddyfarniadau:

- yn defnyddio ystod lawn o dystiolaeth ansoddol a meintiol;
- yn ganlyniad i ddefnyddio methodoleg y cyd-adolygiad yn gywir;
- wedi eu profi'n gadarn yn erbyn meini prawf sy'n wybyddus;
- yn fwriadol, yn deg, yn gyson, ar sail gwybodaeth ac yn ddiduedd.

Mae'r cyfarfod asesu terfynol yn elfen hanfodol yn y broses o ddadansoddi a sicrhau ansawdd. Yn syth ar ôl gwneud y gwaith maes, bydd y tîm cyd-adolygu yn parhau i archwilio'r dystiolaeth. Byddant wedyn yn cyfarfod gyda'r safonwyr allanol er mwyn gwerthuso perfformiad yr awdurdod lleol yn y ddau ddimensiwn sydd wedi eu cynnwys yn y matrics dyfarnu ac ym mhob un o'r meysydd adolygu cysylltiedig. Esbonnir y sail ar gyfer y dyfarniadau hyn yn Adran 0.6 y Llawlyfr.

Bydd y trafodaethau yn defnyddio'r holl dystiolaeth o'r broses adolygu. Bydd y cyfarfod hefyd yn cytuno ar y prif ganfyddiadau sydd i'w cyflwyno i'r awdurdod

lleol o flaen yr adroddiad. Nid yw'n bosibl darparu dyfarniadau terfynol ar y cam hwn oherwydd y caiff penderfyniadau ynglŷn â dyfarniadau eu hail-asesu wedi i'r adroddiad gael ei ysgrifennu.

Cyfarfodydd adborth

Bydd yr adolygwyr yn dychwelyd at yr awdurdod lleol i gyflwyno eu prif ganfyddiadau mewn cyfarfodydd gyda:

- uwch reolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol;
- aelodau blaenllaw a'r Prif Weithredwr;
- grŵp cyfeirio y defnyddwyr gwasanaeth a gofalyddion;
- staff y gwasanaethau cymdeithasol.

Byddant yn amlinellu cryfderau ac agweddau i'w gwella ym mhob un o'r meysydd adolygu. Nid darparu casgliadau terfynol yw pwrpas yr adborth hwn ac nid oes bwriad i gyhoeddi'r deunydd.